





# Her Fawr yr Haf

89248

# ARWEINLYFR

Yn galw ar bobl ifanc



#HerFawrYrHaf2024

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

PACT Gogledd Cymru North Wales
Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned
Police and Community Trust

# Y Rheolau

1. Mae Her Fawr yr Haf ar agor i holl bobl ifanc 5 - 18 oed.
2. Rhaid i grwpiau fod ag aelodau o glwb wedi hen sefydlu, grŵp, dosbarth neu ysgol sydd wedi bod ar waith am o leiaf 1 mis cyn agor y ffenest gystadlu.
3. Rhaid i brosiectau gael eu cyflawni yng Ngogledd Cymru.
4. Gall grwpiau fod o oedrannau cymysg (rhwng 5-18 oed)
5. Rhaid i grwpiau gael eu lleoli yng Ngogledd Cymru.
6. Gall grŵp gynnwys unrhyw nifer.
7. Rhaid i ymgynghorydd sy'n oedolyn fod yn rhywun cyfarwydd i chi ac yn 18 oed neu'n hŷn.
8. Gallwch roi mwy nag un tîm i'r her.
9. Mae ffenest Her Fawr yr Haf ar agor rhwng 17 Mehefin - 2 Medi. Rhaid i bob prosiect a gyflawnir gael ei wneud o fewn y ffrâm amser hwn.
10. Unwaith rydych wedi cofrestru ar-lein, byddwch yn derbyn cadarnhad ar e-bost ynghyd â llyfr cofnodion eich tîm. Rhaid i lyfrau cofnodion gael eu cwblhau a'u dychwelyd er mwyn cael eu beirniadu. Gallwch argraffu eich llyfr cofnodion a'i ddychwelyd atom drwy'r post neu dros e-bost.
11. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno llyfr cofnodion ydy dydd Llun 20 Medi 2024. Mae llyfrau cofnodion i'w postio'n ôl at:

    Her Fawr yr Haf
    Hyb Atal
    Pencadlys Rhanbarthol Heddlu Gogledd Cymru
    Parc Busnes Llanelwy
    Llanelwy
    LL17 0HQ

    neu

    E-bostiwch youthengagementofficer@northwales.police.uk
12. Ni ystyrir unrhyw lyfrau cofnodion a dderbynnir ar ôl dydd Llun 20 Medi 2024 i'w beirniadu.
13. Efallai bydd gofyn cysylltu â grwpiau yn ystod ac wedi'r gystadleuaeth. Gall gwybodaeth a ffotograffau a roddir gan y cyfranogwyr gael eu defnyddio at ddibenion cyhoeddusrwydd. Os nad ydych yn dymuno i'ch manylion gael eu defnyddio yn y ffordd hon, cysylltwch â ni ar e-bost

    youthengagementofficer@northwales.police.uk

# Cyngor i'r Oedolion!

- Fel ymgynghorydd sy'n oedolyn, eich cyfrifoldeb chi fydd arwain a diogelu eich tîm a chynnig cyngor a chymorth lle mae'n briodol.
- Gwnewch asesiad risg o'r prosiect arfaethedig cyn cynnal unrhyw weithgarwch.
- Os ydy prosiect yn cynnwys codi arian er budd elusen, sicrhewch y cyfrifir am yr holl arian a'i fod yn cael ei gadw'n ddiogel gennych eich hun hyd nes y caiff ei drosglwyddo i'r parti neu'r elusen berthnasol. Os ydych yn cynllunio prynu eitemau ar gyfer elusen, cadwch bob derbynneb a defnyddiwch y llyfr cofnodion er mwyn cofnodi pob eitem ac arian a gasglwyd.
- Dalier sylw fod gofyn i rywun yn uniongyrchol am arian neu fynd o ddrws i ddrws yn erbyn y gyfraith.
- Yn anffodus nid yw'n bosib i'r heddlu na'r gwasanaeth tân fod yn bresennol tro bod eich tîm yn cyflawni eu prosiect. Felly, eich cyfrifoldeb chi ydy sicrhau diogelwch a goruchwylio'r grŵp.
- Sicrhewch fod gan eich tîm Gyfarpar Diogelu Personol wrth gyflawni eu gwaith.
- Peidiwch â gadael i'ch tîm gyflawni prosiectau mewn ardaloedd lle mae risg uchel, er enghraifft afonydd, rheilffyrdd, ffyrdd prysur ayyb.
- Yn olaf...Mwynhewch - Gwnaiff y gwaith mae eich tîm yn ei wneud gynorthwyo eich cymuned go iawn!

# Cyngor i'r Timau

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn trafod a chytuno ar eich prosiect gyda'ch ymgynghorydd sy'n oedolyn cyn dechrau ar eich gwaith a deall unrhyw gyngor diogelwch rydych wedi'i dderbyn.
- Peidiwch ag ymgymryd ag unrhyw weithgarwch sydd heb ei gytuno gyda'ch ymgynghorydd sy'n oedolyn o flaen llaw.
- Gall fod mwy o risg i rai prosiectau na rhai eraill. Sicrhewch fod gennych y dillad a'r offer iawn cyn i chi ddechrau.
- Sicrhewch bob amser fod eich rhieni/gwarcheidwaid yn gwybod lle rydych chi a'r hyn rydych chi yn ei wneud.
- Peidiwch byth â chyflawni unrhyw weithgareddau ar eich pen eich hun.
- Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i gysylltu â rhywun mewn argyfwng.
- Os ydy eich prosiect yn cynnwys mynd ar dir neu eiddo rhywun, byddwch angen sicrhau fod gennych ganiatâd gan yr unigolyn neu'r awdurdod perthnasol cyn gwneud.
- Os ydy eich prosiect yn cynnwys codi arian er budd elusen, sicrhewch y trosglwyddir yr holl arian rydych yn ei gasglu i'ch ymgynghorydd sy'n oedolyn sy'n gyfrifol am ei ddiogelu.
- Cofiwch ei bod yn erbyn y gyfraith i ofyn i rywun am arian yn uniongyrchol.

# Y Llyfr Cofnodion!

Mae hwn yn hanfodol!

- Mae angen ei gwblhau a'i ddychwelyd er mwyn i'ch tîm fod â'r cyfle o ennill un o'r gwobrau ariannol gwych.
- Hoffem i hwn gael ei ysgrifennu gan aelodau o'ch tîm. Fodd bynnag, efallai bydd timau iau angen cymorth gan eu hymgynghorydd sy'n oedolyn, ac mae hynny'n iawn hefyd.
- Gellir ei deipio neu ei ysgrifennu â llaw. Nid yw'n bwysig, cyhyd ag y gallwn ei ddarllen! Rydym ond eisiau gwybod am yr holl waith anhygoel rydych wedi bod yn ei wneud. Hoffem weld lluniau neu fideos ohonoch yn cyflawni eich prosiectau hefyd - felly sicrhewch eich bod yn ein tagio ni mewn unrhyw gyhoeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol #HerFawrYrHaf. Rhaid i chi gynnwys enw eich grŵp.
- Fel arall, gallwch argraffu unrhyw luniau a'u hanfon gyda'ch llyfr cofnodion drwy'r post.
- Oedolion - Ychwanegwch eich sylwadau i'r adran berthnasol ar waelod y llyfr cofnodion.
- Cofiwch, efallai na fyddwn yn gallu eich gweld chi'n cyflawni eich prosiectau. Felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth ag y gallwch.
- Gall fod yn ddefnyddiol diweddaru eich llyfr cofnodion wrth i chi fynd, yn enwedig os cyflawnir eich prosiect dros nifer o ddyddiau/wythnosau. Y ffordd yna, ni fyddwch yn anghofio unrhyw bethau pwysig.
- Mae angen i bob llyfr cofnodion gael eu hanfon drwy'r post neu dros e-bost atom ni erbyn dydd Llun 20 Medi 2024 – Mae manylion yn adran y Rheolau uchod.

# Felly, gadewch i ni ddechrau!

- Rydych wedi cofrestru. Mae eich tîm yn barod ac rydych bellach angen meddwl am brosiect a wnaiff gynorthwyo eich cymuned. Efallai fod gennych un mewn golwg yn barod? Beth bynnag ydyw, sicrhewch eich bod yn ddiogel, wedi derbyn cyngor gan eich ymgynghorydd sy'n oedolyn ac eich bod yn ymwybodol o reolau'r her.
- Byddwch mor greadigol ac arloesol ag yr hoffech ond cofiwch, rhaid i'ch prosiect gynorthwyo rhywun neu rywbeth yn eich cymuned.
- Tra bod codi sbwriel yn beth da, ceisiwch feddwl am syniad gwreiddiol i fynd â'r prosiect i'r lefel nesaf!
- Unwaith mae eich grŵp wedi cytuno ar brosiect, yna mae angen i chi benderfynu sut y gwnewch ei gyflawni. Ystyriwch risgiau, diogelwch, rolau, cyfrifoldebau, amser a dreuliwyd a phwy fydd yn elwa ohono – gallwch gofnodi hyn i gyd yn eich llyfr cofnodion!
- Os ydy eich prosiect angen caniatâd gan rywun arall, sicrhewch eich bod yn cael hwnnw hefyd.
- Nid oes rhaid i'ch prosiect fod yn fawr. Nid oes angen iddo gostio unrhyw arian i chi - Ni chewch eich beirniadu ar hynny. Rydym yn chwilio am brosiectau sy'n gwneud y mwyaf i elwa'r bobl, lleoedd neu gymunedau roeddent yn bwriadu eu cynorthwyo. Rydym eisiau dangos y cyfraniad gwych mae pobl ifanc yn ei wneud yn ein cymdeithas.
- Os ydych yn cael trafferth penderfynu ar brosiect, rydym wedi cynnwys rhai syniadau ar ein hysbyseb ond eich dewis chi ydy o yn y pen draw. Felly...drosodd i chi!